

# **DEVOLUTION IN WALES**

## **Foreword**

**The Right Honourable Lord Irvine of Lairg**

**Lord Chancellor**

As many will already know, Lawyers in Wales have recently inaugurated the Principality's first Public Law and Human Rights Association in response to the process of devolution in Wales and the setting up of the National Assembly for Wales, which formally took its powers under the Government of Wales Act 1998 on 1<sup>st</sup> July 1999.

I very much welcome the formation of the Association. Officials from my Department attended its inaugural meeting and its very successful Conference in April, the papers from which are brought together in this volume. Members of the Association were of great assistance to my officials in preparing the 'walkthrough' organised by my Department in Cardiff in September. This pioneering event brought together interested parties from the civil service, local government, the legal professions and the judiciary, to discuss hypothetical case studies highlighting the kinds of issues which may potentially be raised in the Courts under the Government of Wales Act.

As this event shows, I have been determined to ensure that the Lord Chancellor's Department is ready to meet the challenge posed by devolution and that it recognises the particular needs of the people of Wales. We have found the support of the Welsh judiciary, and in particular the Presiding Judge, Mr Justice Thomas, invaluable. I announced at the First Conference of UK judges on 9<sup>th</sup> April, that Crown Office cases raising devolution issues can now be initiated and heard in Wales. These arrangements are supported by a Practice Direction on devolution issues issued on 1<sup>st</sup> July. The Practice Direction also supports the Courts in meeting the challenge of the co-equal status of Welsh and English legislative texts, which is unique to Welsh devolution. It makes arrangements for judicial assessors drawn from the bilingual judiciary to assist the Court in handling texts in technical Welsh legal language.

Legal practitioners in Wales serve the Welsh constituency and it is of paramount importance that they are well placed to offer expert legal services in areas of practice which will be affected by the recent legislative developments. Secondary legislative and executive powers have been devolved to the Assembly by the Government of Wales Act 1998.

What are the new challenges? European Community law is already part of the law of the United Kingdom, but will henceforth fall to be applied and implemented for the first time by the devolved government in Wales. The Human Rights Act 1998 gives effect in domestic law to the rights and freedoms guaranteed under the European Convention on Human Rights. Whilst the Human Rights Act does not come into force in England until October 2000, in Wales the rights it guarantees have been binding on the National Assembly since 1<sup>st</sup> July.

The Assembly thus has no power to act incompatibly with a Convention right. Ultimately, the impact of Convention rights upon public and administrative law, criminal justice, immigration, asylum, family, planning, education, social security and employment law will

be immense. Legal practitioners in Wales will be expected to argue questions involving Convention rights whenever they arise.

The advent of the National Assembly for Wales under the provisions of the Government for Wales Act 1998 will involve significant new legal obligations for devolved government in Wales. It will also provide significant new opportunities. In the case of European Community Law, these obligations will be very extensive. They would have applied to the National Assembly, as an arm of regional government, in any case even without the Government of Wales Act 1998, but now they will be much more immediate for the public in Wales and its governing body. In the case of Human Rights, the rights and obligations arise out of a totally new field for the United Kingdom which would not have been brought about but for the Government of Wales Act 1998 and the Human Rights Act 1998.

Plainly these rights and obligations should no longer be thought of as something that only affects central government to be dealt with by officials based in Whitehall. This new body of law provides a real opportunity for Wales to give a lead in the enforcement of rights in favour of the individual and of business. The opportunity which exists for those best placed to give legal advice on these issues, who are prepared to seize this opportunity at an early stage, cannot be overstated.

With this in mind the legal profession in Wales, in both the public and private sectors, both practising lawyers and academics, have decided to form the Wales Public Law and Human Rights Association. The Association is open to all lawyers in this specialist field of work. It will encourage discussion among all legal services and education providers for the mutual benefit of all. It will organise regular lectures and seminars on the procedural and substantive law implications of these far reaching developments for the law in Wales.

On 17<sup>th</sup> April this year, the Association organised a full day Conference in association with the Cardiff Law School and the Law Society in Wales. It was addressed by leading lawyers, including Lord Williams of Mostyn QC and the current Chairman of the Bar Council, Dan Brennan QC.

The texts of the papers delivered at that Conference have now been published in this commemorative volume so that their content may be more widely known. It is hoped that this publication will become the first in a regular series of such papers, essays and articles on Public Law in Wales and be of benefit to all with an interest in this area of the law.

Great progress has, therefore, been made, but no doubt much work still lies ahead. I am sure that the Association will have a major forward role to play.

**October 1999**

# DATGANOLI YNG NGHYMRU

## Rhagair

Y Gwir Anrhydeddus Yr Arglwydd Irvine o Lairg

Yr Arglwydd Ganghellor

Fel y gwyr llawer eisoes, mae cyfreithwyr yng Nghymru wedi sefydlu Cymdeithas Cyfraith Gyhoeddus ac Hawliau Dynol cyntaf y Dywysogaeth mewn ymateb i'r broses o ddatganoli yng Nghymru ac yn sgil sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a dderbyniodd ei bwerau yn ffurfiol dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ar y 1af o Orffennaf 1999.

Rwyf yn croesawu yn gynnes sefydlu'r Gymdeithas hon. Mynychodd rhai o swyddogion fy Adran ei chyfarfod agoriadol a'i chynhadledd hynod Iwyddiannus ym mis Ebrill. Cesglir ynghyd yn y gyfrol hon y papurau a draddodwyd yn y gynhadledd. Rhoddoddaelodau'r Gymdeithas gymorth sylweddol i'm swyddogion wrth baratoi'r sesiwn hyfforddi a drefnwyd gan fy Adran yng Nghaerdydd ym mis Medi. Denodd y digwyddiad arloesol hwn ynghyd farnwyr acaelodau o blith y gwasanaeth suful, llywodraeth leol a'r proffesiynau cyfreithiol i drafod esiamplau o'r math o ddadleuon y gellid eu crybwyll yn y Llysoedd yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru.

Fel y dengys y digwyddiad hwn, rwyf yn benderfynol o sicrhau bod Adran yr Arglwydd Ganghellor yn barod i ddelio a sialens datganoli a'i bod yn ymwybodol o anghenion neilltuol pobl Cymru. Mae cymorth y barnwyr Cymreig, ac yn enwedig gymorth y Barnwr Llywyddol, Mr Ustus Thomas, wedi bod yn amrhiadwy. Cyhoeddais yng Nghynhadledd Gyntaf Barnwyr y Deyrnas Unedig ar Ebrill 9fed y gellir cychwyn achosion Swyddfa'r Goron a chynnal gwrandawiadau ar eu cyfer yng Nghymru lle bo'r achosion hynny yn ymwneud a materion datganoli. Nodir y manylion mewn Cyfarwyddyd Ymarfer ar faterion datganoli a gyhoeddwyd ar y 1af o Orffennaf. Mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer hefyd yn cynorthwyo'r llysoedd i gwrdd a'r her o ddelio a statws cyfartal testunau deddfwriaethol yn y Gymraeg a'r Saesneg - her sydd yn unigryw i ddatganoli Cymreig. Mae'n gwneud trefniadau ar gyfer penodi aseswyr barnwrol o blith y barnwyr hynny sydd yn ddwyieithog er mwyn cynorthwyo'r Llys gyda thestunau cyfreithiol technegol yn y Gymraeg.

Mae cyfreithwyr yng Nghymru yn gwasanaethu poblogaeth Cymru. Mae'n hollbwysig eu bod yn gallu cynnig gwasanaeth cyfreithiol arbenigol yn y meysydd hynny a fydd yn cael eu heffeithio gan y datblygiadau deddfwriaethol diweddar. Mae pwerau gweithredol a phwerau deddfwriaethol eilradd wedi cael eu datganoli i'r Cynulliad gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Beth yw'r sialens newydd? Mae cyfraith y Gymuned Ewropeaidd eisoes yn rhan o gyfraith y Deyrnas Unedig, ond yn awr bydd disgwyl i'r llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru ei gweithredu am y tro cyntaf. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn dwyn i rym oddi mewn i'n cyfraith ddomestig yr hawliau a'r rhyddfreiniâu a warchodir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Er na ddaw'r Ddeddf Hawliau Dynol i rym yn Lloegr tan Hydref 2000, mae'r hawliau a warchodir gan y Ddeddf honno wedi rhwymo'r Cynulliad Cenedlaethol a'i benderfyniadau ers y 1af o Orffennaf 1999.

Nid oes gan y Cynulliad, felly, bŵer i weithredu mewn modd sydd yn anghyson â hawliau'r Confensiwn. Yn y pen draw, bydd hawliau y Confensiwn yn cael effaith enfawr ar gyfraith gyhoeddus a gweinyddol, ar gyfiawnder troseddol, ar gyfraith mewnfudiad a noddfa ynghyd â chyfraith teulu, cynllunio, addysg, cyflogaeth a nawdd cymdeithasol. Bydd disgwl i gyfreithwyr yng Nghymru gyflwyno dadleuon yn ymwneud â hawliau'r Confensiwn lle bynnag y bônt yn berthnasol.

Bydd dyfodiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn sgil darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn creu dyletswyddau cyfreithiol newydd ar gyfer llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru. Bydd y Cynulliad hefyd yn darparu cyfleon newydd. Bydd y dyletswyddau yn rhai hynod o eang, o ran Cyfraith y Gymuned Ewropeaidd. Bu'r Cynulliad Cenedlaethol o dan ddyletswyddau o'r fath, hyd yn oed cyn Deddf Llywodraeth Cymru 1998, gan ei fod yn adain o'r llywodraeth rhanbarthol, ond yn awr bydd y dyletswyddau hynny yn effeithio yn fwy uniongyrchol ar y cyhoedd a'r corff llywodraethol yng Nghymru. Ym maes Hawliau Dynol, cyflwynir hawliau a dyletswyddau mewn maes cwbl newydd na fyddai yn bodoli oni bai am Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Hawliau Dynol 1998.

Ni ellir trin yr hawliau a'r oblygiadau hyn fel rhywbeth sydd yn effeithio ar y llywodraeth ganolog yn unig, neu rhywbeth ar gyfer gweision suful Llundai. Mae'r maes cyfreithiol newydd hwn yn rhoi cyfle i Gymru gynnig arweiniad drwy ddehongli a gweithredu'r hawliau hyn o blaid yr unigolyn ac o blaid byd busnes. Ni ellir gorbwysleisio'r cyfleon fydd ar gael i'r rheiny sydd yn barod i gipio'r cyfleoedd i gynnig cyngor cyfreithiol ar y materion hyn.

O'r herwydd mae'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru, yn y sector breifat a'r sector gyhoeddus, yn gyfreithwyr ac yn ddarlithwyr, wedi penderfynu sefydlu Cymdeithas Cyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol Cymru. Mae'r Gymdeithas yn croesawu pob cyfreithiwr sydd yn gweithio yn y maes arbenigol hwn. Gobeithia'r Gymdeithas annog trafodaeth ymhlið darparwyr addysg a gwasanaethau cyfreithiol. Bydd y Gymdeithas yn trefnu darlithoedd a seminarau rheolaidd ar oblygiadau cyfreithiol ac ymarferol y datblygiadau pellgyrhaeddol hyn ym myd y gyfraith yng Nghymru.

Ar 17eg o Ebrill eleni, trefnodd y Gymdeithas gynhadledd undydd mewn cydweithrediad ag Ysgol y Gyfraith, Caerdydd a Chymdeithas y Gyfraith yng Nghymru. Anerchwyd y gynhadledd gan gyfreithwyr blaenllaw, gan gynnwys yr Arglwydd Williams o Fostyn CF a chadeirydd presennol Cyngor y Bar, Dan Brennan CF.

Mae testunau'r darlithoedd hynny a draddodwyd yn y Gynhadledd wedi eu casglu ynghyd yn y gyfrol hon er mwyn lledaenu eu cynnwys ar raddfa ehangach. Gobeithir y bydd y cyhoeddiad cyntaf hwn yn arwain ar gyfres o bapurau, traethodau ac erthyglau tebyg ar Gyfraith Cyhoeddus yng Nghymru ac y bydd o fudd i bawb sydd â diddordeb yn y maes.

Mae llawer wedi cael ei gyflawni eisoes, felly, ond mae llawer o waith i'w wneud eto. Rwyf yn sicr y bydd gan y Gymdeithas ran allweddol i'w chwarae.